COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 5ED RHAGFYR 2016 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd J. Davies (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G Baker; Mrs L Edwards; R Foreman; Mrs L Griffiths; Mrs M Jones; A Khan; Mrs H Meredith; A Pearson; J Pearson; Mrs V Perry; Dr S Roy; G Ward; C Wood MBE; S Williams

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Mrs Sarah Ecob, Mr Phil Batty, Mr Paul Sampson a Mr Richard Jones, Theatr Colwyn

266/16 <u>Ymddiheuriadau am Absenoldeb:</u>

a. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr D Griffiths, A Mason, P Richards, Mrs V Smith ag S Taylor.

b. Fe nodwyd bod y Cynghorydd C. Perry wedi ymddiswyddo o'r Cyngor yn effeithiol o 9fed Tachwedd 2016, ac fe dderbyniwyd cyngor gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn cadarnhau nad yw'n angenrheidiol i hysbysebu'r gwagle am ei fod yn dod o fewn 6 mis o'r etholiadau lleol nesaf. Fe nodwyd ymhellach bu'r Cynghorydd Perry yn aelod pwysig o'r Cyngor ers 1995, gydag un toriad mewn gwasanaeth o bedair blynedd yn y cyfnod hwn. Roedd yn siomedig ganddo ei fod yn gorfod ymddiswyddo ar sail cyflwr ei iechyd.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch i'r Cynghorydd Perry am ei ymrwymiad i'w swydd fel Cynghorydd lleol ac fel Maer y Dref (2013/14) ac i ddymuno'n dda iddo at y dyfodol.

c. Er ei fod yn y cyfarfod heno, fe nodwyd na fydd y Cynghorydd Foreman yn gallu bod yn bresennol mewn cyfarfodydd am beth amser yn y Flwyddyn Newydd tra ei fod yn derbyn triniaeth.

Penderfynwyd awdurdodi cyfnod o absenoldeb i'r Cynghorydd Foreman am hyd at bum mis o heddiw (hyd at ddyddiad yr etholiadau lleol nesaf).

267/16 <u>Cyhoeddiadau:</u>

Roedd gan y Maer dau gyhoeddiad byr, yn gyntaf i atgoffa'r Aelodau i ymateb i'r gwahoddiad i noson y Panto Dinesig yn Theatr Colwyn. Yn ail, llongyfarchwyd y Cynghorydd G. Baker a Chymdeithas Masnachwyr Llandrillo yn Rhos am y gwaith a wnaed ganddynt efo'r Ffair Nadolig yn Llandrillo yn Rhos, Sadwrn diwethaf. Fe'i gwerthfawrogwyd yn fawr iawn a chafodd gefnogaeth gan y gymuned leol.

Penderfynwyd diolch i'r Cynghorydd G. Baker am yr hyn a wnaed ganddi ac am ei chefnogaeth i'r digwyddiad hwn.

268/16 <u>Datgan Cysylltiadau:</u>

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

269/16 <u>Ymwelwyr â'r Cyngor:</u>

a. Croesawyd Sarah Ecob (Pennaeth y Gwasanaeth), Phil Batty (Rheolwr y Theatr), Richard Jones (Rheolwr Marchnata) a Paul Sampson (Curadur, Oriel Colwyn) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd er mwyn iddynt gael rhoi trosolwg o'r gwaith a wneir yn Theatr Colwyn ag Oriel Colwyn.

Diolchodd Sarah i'r Cynghorwyr am y cyfle i fod yn bresennol a dywedodd ei bod yn ddiolchgar am y cymorth ariannol cyfredol a ddaw gan y Cyngor. Roedd yn falch o'r cyfle i gael diweddaru'r aelodau am welliannau a wnaed ers y gwaith o ailwampio yn 2012. Rhoddodd Phil Batty cyflwyniad byr yn ymdrin â'r cynnydd yn y nifer o ymwelwyr blynyddol i 41,668, cysylltiadau cymunedol gydag ysgolion a grwpiau lleol dawns / celfyddydau perfformio ayb, yr amrediad o berfformiadau byw (tua 100 y flwyddyn), perfformiadau byw ar y sgrin a nosweithiau sinema. Yna cyflwynodd Richard wybodaeth ystadegol am broffil yr ymwelwyr, gan gadarnhau bod mwy o ymwelwyr yn cael eu denu o ardal ehangach, llawer ohonynt yn aros yn yr ardal leol. Cafwyd 7,323 o ymwelwyr yn dychwelyd y llynedd. Fe wneir y marchnata trwy'r cyfryngau cymdeithasol, pamffled (ar y cyd efo Venue Cymru), e-trawiadau, ysgolion a rhestrau dosbarthu. Mae'r Theatr yn cael ei gynrychioli hefyd yn y sioeau haf megis Sioe Ynys Môn.

Rhoddodd Paul Sampson cyflwyniad byr yn benodol am Oriel Colwyn a'i bwyslais ar arddangosfeydd ffotograffiaeth a phrosiectau addysgiadol, gweithio gyda myfyrwyr o Goleg Llandrillo a chyflwyno gweithdai misol i'r rhai iau yn rhad ac am ddim. Cefnogir y prosiect hwn, a fu'n rhedeg ers pedair blynedd erbyn hyn, gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Bu'r cwrs 'Focus on Photograhy' a wobrwywyd, yn ymwneud a thrigolion lleol a chafwyd sgyrsiau gan arlunwyr, gweithdai a chysylltiadau byw ar Skype. Cafwyd hysbysrwydd cenedlaethol i Oriel Colwyn gan bapur 'The Guardian' a'r BBC sydd wedi helpu i roi Bae Colwyn ar y map, gan ddenu ymwelwyr o ledled Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Daeth y cyflwyniad i ben gyda Sarah yn cyfeirio at 'Inspire Days' sy'n cael ei gyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru ag eraill. Y nod yw ymgysylltu pobl, yn arbennig teuluoedd a phobl ifanc, gyda'r Celfyddydau. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Celf Conwy i gael cyllid ac i gefnogi celf trwy'r sir. Cafwyd cyllid am yr ystafell dywyll a phrosiectau eraill yn lleol. Diolchodd Sarah i'r holl staff a'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n galed iawn i gefnogi'r Theatr a phopeth a gynigir yna.

Yna cafwyd sesiwn o holi a gwneud sylwadau gan yr aelodau, ac roedd y rhain yn ymwneud ag: a yw Oriel Colwyn yn ymwneud a grwpiau celf / ffotograffiaeth lleol; llongyfarchwyd y tîm a fu'n gysylltiedig â throi'r Theatr i fod yn fan cyfarfod poblogaidd a deniadol unwaith eto; tybed a

ellir adennill y costau fel na fydd angen cefnogaeth ariannol gan y ddau gyngor; yr angen i barhau gyda gwelliannau (e.e. yr ystafelloedd newid).

Diolchwyd i Sarah a'i chydweithwyr am fod yn bresennol a gadawsant y cyfarfod.

b. Fe nodwy bod Helen Jackson, Tîm Llesiant Dementia CBSC, wedi cael gwahoddiad i roi cyflwyniad ar fenter newydd sy'n cael ei ystyried sef Cymunedau sy'n Cefnogi Dioddefwyr Dementia. Dywedodd y Clerc mai'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor sydd ar gael yw Mawrth / Ebrill.

Penderfynwyd gwahodd Helen i ddod i gyfarfod yn y dyfodol.

270/16 <u>Cofnodion:</u>

a. ***Penderfynwyd derbyn, cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 17^{eg} Hydref 2016.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd canlynol:***

i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 25^{ain} Hydref 2016.

ii Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar16^{eg} Tachwedd 2016 (Drafft)

iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 22^{ain} Tachwedd 2016 (Drafft).

271/16 <u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>

a. Cofnod 214/16(a) - Llysgenhadaeth y Congo:

Rhoddwyd adroddiad byr ar lafar gan y Maer, Y Cynghorydd L. Griffiths a'r Cynghorydd S. Roy am y digwyddiadau diweddar (symposiwm ar ddydd Gwener 18^{fed} a dathliad ar ddydd Sadwrn 19^{eg} Tachwedd) a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried ad-dalu treuliau am fwyd a diod i ddeg o gynrychiolwyr oedd yn ymweld ar ddydd Gwener 18^{fed} (£127.37)

Penderfynwyd rhoi awdurdod i dalu treuliau hyd at uchafswm o £127.37.

b. ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

i. **Cofnod 231/16 - Lwfansau Ward Aelodau Lleol:** Cyflwynodd y Clerc y gweddill o'r Cynigion am Brosiectau a gyflwynwyd gan Aelodau naill ai cyn y cyfarfod neu yn y cyfarfod.

Penderfynwyd cymeradwyo'r taliad terfynol o Lwfansau Ward am 2016/17 fel y manylir arnynt yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.

ii **Cofnod 245/16(c) - Talu am Barcio ar y Promenâd:** Ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ofyn i'r taliadau a fwriedir fod yn gymwys i faes parcio Porth Eirias hefyd, ac eithrio'r rhai sydd gyda

thocyn, neu fel arall, ni fydd le i ddefnyddwyr y chwaraeon môr / ardal y llithrfa neu ymwelwyr a'r bwyty.

c. ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

272/16 **<u>Gwahoddiad i Ddigwyddiadau:</u>**

Cyflwynodd y Clerc gwahoddiadau i ddigwyddiad i'w ystyried:

a. Mynediad i Eirias, 9fed Gorffennaf 2017 (Bryan Adams)

Penderfynwyd dosbarthu manylion i bob aelod yn dilyn yr etholiadau ym Mai 2017 a chynnal raffl, os oes angen, i benderfynu pwy sydd i fynd.

b. Clwb Pêl-droed Bae Colwyn - Gêm gartref yn y dyfodol:

Penderfynwyd gofyn i gael defnyddio'r swyddfa docynnau ar gyfer y gêm yn erbyn Glossop ar 25ain Chwefror 2017, a phan fydd hyn wedi cael ei gadarnhau, dosbarthu'r manylion i bob aelod er mwyn iddynt wneud cais am docynnau.

Yna, diolchodd y Maer i'r Faeres, y Dirprwy Faer a staff Neuadd y Dref am eu cymorth a dymunwyd iddynt Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

Daeth y cyfarfod i am 7.45 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTE OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 5TH DECEMBER 2016

PRESENT: The Mayor, Cllr J Davies (Chairman)
Cllrs: W Bagnall; Mrs G Baker; Mrs L Edwards; R Foreman; Mrs L Griffiths; Mrs M Jones; A Khan; Mrs H Meredith; A Pearson;
J Pearson; Mrs V Perry; Dr S Roy; G Ward; C Wood MBE; S Williams

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENANCE: Mrs Sarah Ecob, Mr Phil Batty, Mr Paul Sampson and Mr Richard Jones, Theatr Colwyn

90/11 Apologies for Absence:

a) Apologies for absence were received from Cllrs: D Griffiths, A Mason, P Richards, Mrs V Smith and S Taylor.

b) It was noted that Cllr C Perry has resigned from the Council, with effect from 9th November 2016, and that advice had been received from CCBC to confirm that it was not necessary to advertise to fill the vacancy, as it falls within 6 months of the next local elections. It was further noted that Cllr Perry had been a valued member of the Council since 1995, with only one break of service of four years during that time, and was disappointed to have to resign on the grounds of his ill health.

Resolved to send a letter of thanks to Cllr Perry for his commitment to the role of local Councillor and as Town Mayor (2013/14 and to wish him well for the future.

c) Although present this evening, it was noted that Cllr Foreman may be unable to attend meetings for some time in the New Year, whilst he is undergoing treatment.

Resolved to authorise a leave of absence for Cllr Foreman for up to five months from today (up to the date of the next local elections).

91/11 Announcements:

The Mayor made a couple of brief announcements, reminding members to reply to the invitation to the Civic Panto night at Theatr Colwyn and congratulating Cllr G Baker and ROSTA for their work in putting on the Xmas Fayre in Rhos on Sea last Saturday, which had been very well received and supported by the local community.

Resolved to thank Cllr G Baker for her involvement and support of this event.

92/11 <u>Declarations of Interest</u>:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

93/11 <u>Visitors to the Council:</u>

a) The Chairman welcomed Sarah Ecob (Head of Service), Phil Batty (Theatre Manager), Richard Jones (Marketing Manager) and Paul Sampson (Curator, Oriel Colwyn) to the meeting to give an overview of the work carried out at Theatr Colwyn and Oriel Colwyn.

Sarah thanked councillors for the invitation to attend and stated that she was grateful for the ongoing financial support from the Council and welcomed the chance to update members on the improvements seen since the 2012 refurbishment. Phil Batty gave a brief presentation covering the increase in annual attendance to 41,668, community links with schools and local dance/performing arts groups etc, the variety of live performances (approx. 100 p.a.), screened live performance and cinema nights. Richard then gave some statistical information about visitor profile, confirming that more visitors were now being attracted from wider afield, many of whom would be staying in the local area and that there had been 7,323 repeat bookers last year. Marketing is done via social media, brochure (shared with Venue Cymru), e-shots, schools and distribution lists and the Theatre also has representation at summer shows such as the Anglesey Show.

Paul Sampson then gave a brief presentation specifically about Oriel Colwyn and its emphasis on photography exhibitions and education projects, working with students from Coleg Llandrillo and delivering free monthly junior lightbox workshops. This project has been running for approximately 4 years now, supported by the Arts Council for Wales. The award winning 'Focus on Photography' course engaged with older residents and they have held artist talks, workshops and live skype link-ups. Oriel Colwyn has enjoyed national coverage by the Guardian and BBC and helps to put Colwyn Bay on the map, with visitor reach across North Wales and the North West of England.

Sarah concluded the presentation with reference to the Inspire Days, funded by the Arts Council and others, which aim to engage people, particularly families and young people, in the Arts. Conwy Arts Trust has been set up to access funding and support arts throughout the county, with funding having being obtained for the dark room and other projects locally. Sarah thanked all the staff and volunteers who work very hard to support the Theatre and all it offers.

Questions and comments were then invited from members and these covered: whether Oriel Colwyn engages with local arts/photography groups; congratulations to the team involved in turning the theatre around into a popular and attractive venue once more; whether it will ever break even and not require financial support from both councils; the need to continue making improvements (e.g changing rooms).
Sarah and her colleagues were then thanked for attending and they retired from the meeting.

b) It was noted that an offer had been made by Helen Jackson, CCBC Wellbeing Team, to give a presentation on Dementia Friendly Communities, a new initiative being considered. The Clerk advised that the next available Council meeting would be in March / April.

Resolved to send Helen an invitation to attend a future meeting.

94/11 <u>Minutes</u>:

a) Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 17th October 2016.

b) Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following meetings:
i) The General Purpose & Planning Committee held on 25th October 2016.
ii) The Policy & Finance Committee held on 16th November 2016 (Draft).
iii) The General Purposes & Planning Committee held on 22nd November 2016. (Draft)

95/11 <u>Matters Arising from Those Minutes:</u>

a) **Min.214/16(a)– Congolese Embassy:**

The Mayor, Cllr L Griffiths and Cllr S Roy gave a brief verbal report on the recent events (symposium on Friday 18th and celebration event on Saturday 19th November) and members were asked to consider reimbursing out-of-pocket expenses relating to a meal and drink for ten visiting delegates on Friday 18th November (£127.37).

Resolved to authorise payment of the out-of-pocket expenses, up to £127.37 maximum.

b) Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i) 231/16 – Local Members Ward Allowances: The Clerk tabled the remaining Project Proposals submitted by members either prior to or at the meeting.

Resolved to approve the final payment of Ward Allowances for

2016/17, as detailed in Schedule 'A' attached.

ii) 245/16(c) – Promenade Parking Charges: To write to CCBC to request that the proposed charges also apply to Porth Eirias car park, with the exception of permit holders, otherwise there will be no spaces left for watersports/slipway users or restaurant visitors.

c) Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.

96/11 <u>Invitations to Events:</u>

The Clerk submitted, for consideration, invitations to:

a) Access all Eirias, 9th July 2017 (Bryan Adams)

Resolved to circulate details to all members after the elections in May 2017 and to hold a draw, if necessary,, to determine who should attend.

b) Colwyn Bay FC – a future home game.

Resolve to request use of the box for the game against Glossop on 25th February 2017 and, once confirmed, to circulate details to all members to apply for tickets.

The Mayor then thanked the Mayoress, Deputy Mayor and staff at the Town Hall for their support and wished members a happy Christmas and New Year.

The Meeting Closed at 7.45 p.m.

……. Chairman

. Chairman